OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1311 (Cy.93)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *10 Mai 2005* |
| *Yn dod i rym - -* | *20 Mai 2005* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), 17, 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac wedi ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1990 p. 16; amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o “food”) gan O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan “the Secretary of State”, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4). Yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (Diwygio) 2004 (O.S. 2004/2990), gydag effaith o 7 Rhagfyr 2004 ymlaen datgymhwysir y gofyniad i ymgynghori a geir yn adran 48(4) o Ddeddf 1990 mewn unrhyw achos pan fo ymgynghori'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002.